Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

Cymry Ifanc
Young Wales

www.cymru.gov.uk

Rheolau Ymgeisio Cystadleuaeth

Geir-IAU

Mae'r gystadleuaeth yn agored i bobl ifanc 7-10 oed yng Nghymru. Y dyddiad cau ar gyfer y cynigion yw dydd Gwener 8 Hydref 2010.

I ymgeisio llenwch yr ffurflen gystadleuaeth **Geir-IAU** a phostiwch/ebostiwch i:

Geir-IAU
d/o Working Word PR
Llawr 9, Tŷ Southgate
Wood Street, Caerdydd CF10 1EW

E-bost: **u-news@cazbah.biz**

Drwy ymgeisio yn y gystadleuaeth, mae'r ymgeisydd yn cytuno i'r telerau a'r amodau isod. Ni ellir derbyn cyfrifoldeb dros gynigion sy'n cael eu colli a does dim modd dychwelyd y cynigion. Un o amodau ymgeisio yw bod gan yr ymgeisydd ac unrhyw berson ifanc sy'n ymddangos yn y cynnig y caniatâd perthnasol i gael eu ffilmio neu eu recordio a/neu i gael tynnu eu llun. Yn achos pobl ifanc o dan 16 oed, bydd angen caniatâd rhiant neu warcheidwad. Dylai hyn gael ei gyflwyno gyda'r cynnig gwreiddiol. Mae'r ffurflenni caniatâd perthnasol ar gael yn **www.ccuhpgwneudpethauniawn.co.uk**

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cadw'r hawl i ddefnyddio'r ffotograffau, y ffilmiau neu'r recordiadau hynny at ddibenion hyrwyddo. Wrth ymgeisio yn y gystadleuaeth, rydych chi'n cytuno na fyddwch yn gwneud y canlynol:

- Cyflwyno unrhyw ddeunydd heblaw eich gwaith chi'ch hun
- Cyflwyno anwiredd neu gamliwiad a allai niweidio unrhyw drydydd parti neu beri tramgwydd iddyn nhw
- Cyflwyno unrhyw ddeunydd sy'n anghyfreithlon, yn sarhaus neu'n amhriodol mewn modd arall.

Bydd yr holl ddeunyddiau a fydd yn cael eu cyflwyno neu eu cynhyrchu fel rhan o'r gystadleuaeth yn cael eu trwyddedu i Lywodraeth Cynulliad Cymru a hynny ar drwydded fyd-eang sydd heb freindaliadau ac nad yw'n unigryw am byth yn unol â'r telerau a'r amodau hyn. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cadw'r hawl i ddefnyddio'r testun, y delweddau a/neu'r recordiadau yn gyfan gwbl neu'n rhannol ym mha ffordd bynnag y mae'n credu ei bod yn addas (a all fod heb gysylltiad â'r gystadleuaeth), gan gynnwys y we, heb ganiatâd yr ymgeisydd a heb dalu i'w defnyddio fel hyn.

Dim ond i'r graddau y bydd hynny'n angenrheidiol ar gyfer y gystadleuaeth y bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn defnyddio manylion personol, a hynny o dan ddarpariaethau Deddf Diogelu Data 1988 bob amser.

Panel a benodir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ac a fydd yn cynnwys cynrychiolwyr pobl ifanc fydd yn beirniadu'r cynigion. Bydd penderfyniad y panel yn derfynol.

Does dim modd cael arian parod yn lle'r gwobrau. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cadw'r hawl i newid manylion y gwobrau ar unrhyw adeg.

Caiff enwau enillwyr Cymru gyfan a'r rhanbarthau eu dewis erbyn 1 Tachwedd 2010. Caiff y manylion eu gosod ar wefan **www.ccuhpgwneudpethauniawn.co.uk**

Byddwn yn cysylltu â'r enillwyr i drefnu cyflwyno'r gwobrau i'r disgyblion o dan sylw yn y Senedd ym mis Tachwedd 2010.

Does dim modd gohebu na rhoi cyfweliad ar unrhyw fater sy'n codi o'r gystadleuaeth hon.

Caiff Llywodraeth Cynulliad Cymru gyhoeddi enwau'r unigolion wrth ochr unrhyw ddeunyddiau wrth eu defnyddio.

Mae'r gystadleuaeth yn cael ei hariannu'n rhannol gan Cyrraedd y Nod, sef set o brosiectau Cronfa Gymdeithasol Ewrop (ESF) o dan arweiniad Llywodraeth Cynulliad Cymru.

ESF
Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government
Ewrop & Chymru: Buddsoddi yn eich Dyfodol
Cronfa Gymdeithasol Ewrop
Europe & Wales: Investing in your Future
European Social Fund